Hawdd ei Ddeall

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

# Canllawiau Cronfa Gwrando

## Arian i helpu artistiaid i wrando a dysgu oddi wrth bobl frodorol o gwmpas y byd

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Canllawiau Cronfa Gwrando**'.

**Medi 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 25**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** wai.org.uk

**E-bost:** info@wai.org.uk

**Ffôn:** 029 2044 1300

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


Cyflwyniad .... 4

Rhaglen Gwrando .... 7

Cronfa Gwrando .... 10

Beth mae cronfa Gwrando yn ei gynnig .... 11

Pwy sydd yn gallu gwneud cais .... 13

Beth dydyn ni ddim yn gallu ei gefnogi .... 16

Pa wybodaeth mae angen i chi ei roi inni .... 18

Dogfennaeth cefnogi .... 20

Sut i wneud cais .... 21

Cwestiynau a chymorth .... 24


Geiriau anodd .... 25

# Cyflwyniad


Ni ydy **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**. Rydyn ni'n rhan o Gyngor Celfyddydau Cymru.



Rydyn ni'n gweithio i gysylltu'r celfyddydau yng Nghymru gyda gweddill y byd. Fe fydd ein holl waith yn cael ei wneud tra'n meddwl am y nodau pwysig yn:




- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** – deddf am wneud penderfyniadau sydd yn amddiffyn Cymru a llesiant pobl nawr ac yn y dyfodol.



- **Strategaeth Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru** ac Adolygiadau Buddsoddi – cynlluniau sydd yn dweud sut y dylen ni weithio a beth ddylen ni ganolbwyntio arno.




Mae cynlluniau **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn gweld fod y 6 peth yma yn bwysig i'w cefnogi trwy'r celfyddydau yng Nghymru:



1. **Creadigrwydd** – mae hyn yn meddwl celfyddydau sydd yn feddylgar, gyda syniadau newydd ac yn golygu llawer i bobl.



2. **Teg a chyfartal** – rydyn ni eisiau i'r celfyddydau gynnwys pawb.




3. **Yr iaith Gymraeg** – rydyn ni eisiau i'r Gymraeg fod yn rhan pwysig o'r celfyddydau yng Nghymru.



4. **Edrych ar ôl y blaned** – Rydyn ni eisiau cefnogi celfyddydau sydd yn meddwl am y blaned a'r argyfwng hinsawdd.



**5. Cefnogi artistiaid y dyfodol** – rydyn ni eisiau rhoi cyfleoedd teg i bobl ifanc. Rydyn ni eisiau rhoi'r gefnogaeth maen nhw ei angen iddyn nhw i ddod yn artistiaid neu i weithio mewn swyddi eraill yn y celfyddydau.



**6. Ymateb i newid** – rydyn ni eisiau darganfod y cyfleoedd gorau yn y celfyddydau.

A gwneud yn siŵr ein bod yn aros yn berthnasol a gwneud unrhyw newidiadau sydd angen inni eu gwneud.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cael ein rhedeg yn dda.



Fe fyddwn ni'n meddwl am yr holl bethau yma drwy ein gwaith ar y rhaglen Gwrando.



Maen nhw'n bwysig inni pan yn dewis gyda phwy i weithio.

# Rhaglen Gwrando



Enw un thema ar gyfer ein gwaith yn 2022 ydy **Gwrando**.

Thema Gwrando ydy:




- Gwrando ar ieithoedd **brodorol** o gwmpas y byd.



Pobl **frodorol** ydy pobl oedd yn byw ar eu tir cyn i setlwyr ddod o leoedd eraill.

Mae grwpiau o bobl **frodorol** yn America, Ewrop, Awstralia a Seland Newydd. Er enghraifft, pobl Māori yn Seland Newydd.



- A dysgu oddi wrth wybodaeth a hanes y bobl sydd yn eu siarad.



Mewn rhai ieithoedd a diwylliannau rydyn ni'n gwrando a chlywed mewn ffyrdd gwahanol.



Mae'n fwy na dim ond siarad a gwrando drwy ddefnyddio golwg, sain, blas, cyffwrdd ac arogl.



Er enghraifft, yn Gymraeg rydyn ni'n **clywed** arogl. Yn Gymraeg rydyn ni'n dweud '**wyt ti'n gallu clywed sut mae hwn yn blasu?'**



Mae ein ieithoedd yn gallu rhoi ffordd wahanol inni o feddwl am bethau. A theimlad gwahanol am  bethau.



Mae'n dda bod rhagor yn cael ei wneud i gynnwys ieithoedd arwyddion **brodorol** – fel rhan o hawliau dynol pobl **frodorol** byddar ac anabl.



Gallai hyn fod yn rhywbeth diddorol i'w archwilio drwy'r gronfa Gwrando.

Fe wnaethon ni ddewis y thema yma oherwydd y gwaith mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth am bobl **frodorol** a phobl a'u ieithoedd.

# Cronfa Gwrando



Arian ydy cronfa Gwrando i helpu artistiaid yng Nghymru i wrando a dysgu oddi wrth iaith, hanes a gwybodaeth **brodorol.** A rhannu beth maen nhw yn ei ddysgu drwy gelfyddyd.



Fe fyddan nhw yn cymryd rhan mewn sesiynau grŵp i siarad am ey profiadau a beth maen nhw wedi ei ddysgu.



Fe fydd artistiaid sydd yn rhan o gronfa Gwrando yn ein helpu ni i ysgrifennu cynllun a chamau gweithredu ar gyfer gwrando a dysgu oddi wrth grwpiau **brodorol** o gwmpas y byd.

# Beth mae cronfa Gwrando yn ei gynnig



Fe fydd cronfa Gwrando yn rhoi gofod i chi wrando a rhannu dysgu.



Rydyn ni eisiau gwybod i ba grwpiau **brodorol** rydych chi eisiau gwrando arnyn nhw a pham.



Ac rydyn ni eisiau gwybod beth ydy eich syniadau am sut y byddwch chi yn rhannu beth rydych chi wedi ei ddysgu drwy eich celfyddyd.



Rydych chi'n gallu cael i fyny at £7 mil 500 punt drwy gronfa Gwrando. Mae hyn yn gallu talu am:



- Eich amser yn cymryd rhan mewn hyd at 4 diwrnod o ddysgu a rhannu wedi ei drefnu gennym ni



- eich amser yn gwneud eich prosiect




- eich costau teithio ac unrhyw ddeunyddiau rydych chi eu hangen i wneud eich prosiect



- rhannu beth rydych chi wedi ei ddysgu drwy eich celfyddyd. Fe fydd rhan o'r prosiect yn cynnwys siarad gyda ni am sut orau i wneud hyn.



Fe fyddwn ni hefyd yn talu cost eich teithio, bwyd a diod pan rydych chi'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd grwpiau rydyn ni yn eu trefnu yng Nghymru.




**Fe fydd y prosiect yn cychwyn ym mis Chwefror 2023 ac yn gorffen ym mis Hydref 2023.**

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



Mae cronfa Gwrando ar gyfer cyrff celfyddydau ac artistiaid yng Nghymru.




Rhaid i chi fod wedi eich lleoli yng Nghymru, Rhaid i chi wneud cais yn eich enw cyfreithiol.




Rhaid i chi gael cyfrif banc yn eich enw cyfreithiol.



Fyddwn ni ddim yn derbyn ceisiadau gan fyfyrwyr llawn amser.



Rhaid i chi fod ar gael i gymryd rhan mewn 2 weithdy. Fe fyddwn ni'n rhannu dyddiadau'r gweithdai yma ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Wrth ddewis i bwy i roi yr arian fe fyddwn ni yn meddwl am:



- Eich ymrwymiad i nodau rhaglen Gwrando.



- Eich cais a pha mor dda mae'n ateb nodfau cronfa Gwrando.

- Eich gwaith yn y gorffennol a pha mor dda ydy eich gwaith fel arfer.



- Eich syniad ar gyfer y gwaith yma a'ch profiadau bywyd neu ddiddordeb mewn gwneud y prosiect yma.



- Faint o amser rydych chi'n gallu ei roi i'r prosiect ac ydy eich syniad yn gallu cael ei orffen o fewn y ffrâm amser ar gyfer y gronfa.



- Sut y gallai eich gwaith a theithio effeithio ar yr amgylchedd.



Fe fyddwn ni hefyd yn meddwl am sut y gallai cronfa Gwrando eich helpu chi i ddatblygu.



A sut y gallech chi ein helpu ni i ysgrifennu ein cynllun a'n camau gweithredu er mwyn inni wneud yn siŵr ein bod yn parhau i ddysgu.

## Beth dydyn ni ddim yn gallu ei gefnogi

Dydyn ni ddim yn gallu rhoi arian ar gyfer:



- Syniadau heb gynlluniau wrth gefn rhag ofn nad ydych chi'n gallu teithio ar y dyddiadau roeddech chi wedi eu cynllunio.



- Prosiectau sydd yn canolbwyntio yn bennaf ar Gymru, gyda dim ond ychydig o waith yn cael ei wneud ar-lein gydag artistiaid o wledydd eraill.Ar gyfer y mathau yma o brosiectau rydych chi'n gallu gwneud cais i'r gronfa Creu.



- Astudio neu hyfforddi



- Cymryd rhan neu mynd i gystadlaethau.



- Gwaith sydd wedi digwydd yn barod.



- Profion Covid, yn y DU neu mewn gwlad arall.




- Cost **hunanynysu** neu **cwarantin**.

> **Hunanynysu** ydy aros gartref oherwydd efallai bod gennych chi neu mae gennych chi coronafeirws.
>
> **Cwarantin** ydy aros i ffwrdd oddi wrth bobl eraill, gartref neu mewn ystafell mewn gwesty er enghraifft i stopio afiechyd rhag lledaenu.




- Cost dirwyon am dorri rheolau Covid




- Unrhyw gostau sydd ddim yn gallu cael eu talu gan yswiriant oherwydd Covid.

# Pa wybodaeth mae angen i chi ei roi inni

Os gwelwch yn dda, dywedwch wrthyn ni:



- Pam mae gennych chi ddiddordeb yn y gronfa Gwrando a pham rydych chi eisiau cymryd rhan.



- Eich syniad, beth fyddwch chi yn ei wneud a faint o amser fydd e'n gymryd. Dywedwch os oes yna grŵp **brodorol** arbennig rydych chi eisiau gweithio gyda nhw. A sut fyddwch chi yn gwneud yn siŵr eich bod yn gweithio mewn ffordd gofalus, parchus a sensitif.




- Beth rydych chi eisiau ei gyflawni neu ei ddysgu drwy'r gwaith yma. A pham bod hyn yn bwysig i'ch celfyddyd a sut fyddwch chi yn rhannu beth rydych chi wedi ei ddysgu.




- Fyddwch chi yn gwneud y gwaith wyneb yn wyneb, dros gyfrifiadur neu cymysgedd o'r ddau.




- Sut fyddwch chi yn gwneud yn siŵr eich bod yn edrych ar ôl yr amgylchedd pan fyddwch chi'n gwneud y gwaith yma.



- Sut fyddwch chi yn gwneud yn siŵr bod y bobl sydd yn cymryd rhan yn eich gwaith yn cael eu talu yn deg.




- Am eich celfyddyd a'ch gyrfa. Rhowch eich CV os gwelwch yn dda ac enghreifftiau o'ch gwaith. Nodwch unrhyw brofiad sydd gennych chi o weithio gyda grwpiau **brodorol.** Neu gweithio gydag artistiaid eraill i gysylltu a dysgu.




- Unrhyw wybodaeth ddiddorol am yr iaith, cymuned, artist neu weithgaredd rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw.



- Faint o arian ydych chi ei angen a sut fyddech chi yn ei wario. Rhowch yr wybodaeth yma mewn tabl syml yn eich cais os gwelwch yn dda.

# Dogfennaeth cefnogi

Fe fyddwn ni angen i chi anfon y dogfennau yma inni gyda'ch cais:



- Llythyr byr neu e-bost gan eich partner mewn gwlad arall. Fe ddylai ddweud eu bod nhw yn cefnogi eich prosiect. Ac yn gweithio gyda chi. Os ydy eich partner yn rhoi arian i chi neu gefnogaeth arall, mae angen iddyn nhw ddweud wrthyn ni am hyn yma hefyd.



- Dogfen word ychwanegol os ydych chi angen rhagor o le i ddweud wrthyn ni am eich prosiect. Fe ddylech chi roi'r holl bwyntiau o dan **Pa wybodaeth mae angen i chi ei roi inni** ar dudalennau 18-19.




- Rydych chi'n gallu uwchlwytho eich CV fel dogfen ar wahân.




- Mae'r holl ddogfennau ychwanegol yn gallu cael eu uwchlwytho fel rhan o'r cais ar-lein.

# Sut i wneud cais




**Rhaid i chi wneud cais am y Gronfa Gwrando erbyn 5pm ar 19 Rhagfyr 2022.**




Mae angen i chi wneud cais drwy ein porth ar-lein.




Fe fydd angen i chi gofrestru i ddefnyddio'r porth ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio ein porth ar-lein yma.



Os nad ydych chi'n gallu defnyddio ein porth ar-lein, neu os ydych chi angen help, e-bostiwch ni ar info@wai.org.uk.




Llanwch y ffurflen gais Cronfa Gwrando ar y porth ar-lein. Mae 8 adran i'w llenwi.



Yn yr adran **Cynnig Prosiect** mae angen i chi ysgrifennu crynodeb byr i ddechrau am eich prosiect. Efallai y byddwn ni yn defnyddio beth rydych chi'n ei ysgrifennu yma i ddweud wrth bawb am y gwaith yma.




Yna rydyn ni'n gofyn i chi roi rhagor o wybodaeth inni am y prosiect.



Rydych chi'n gallu ysgrifennu hyd at 3000 o eiriau ar y ffurflen. Ond rydych chi'n gallu uwchlwytho dogfen ychwanegol os ydych chi angen ysgrifennu rhagor.  Fe ddylech chi roi'r holl bwyntiau o dan **Pa wybodaeth mae angen i chi ei roi inni** ar **dudalennau 15 ac 16**.



Os ydych chi'n dewis uwchlwytho dogfen ychwanegol gwnewch hynny mewn Word neu PDF os gwelwch yn dda. Fe ddylai'r testun fod o leiaf 12 pwynt mewn maint.




Pan fyddwn ni yn cael eich cais fe fyddwn ni yn dweud wrthych chi ein bod wedi ei dderbyn.



Fe fydd grŵp o bobl yn edrych ar eich cais i ddewis pwy sydd yn cael arian o'r gronfa.



Os ydych chi'n cael eich dewis fe fyddwn ni yn anfon **ffurflen derbyn dyfarniad** atoch chi. Os nad ydych chi'n cael eich dewis fe fyddwn ni yn ysgrifennu i ddweud pam.Rydych chi'n gallu gofyn  am adborth os ydych chi eisiau.



Pan fyddwch chi wedi anfon eich ffurflen derbyn dyfarniad inni fe fyddwn ni yn anfon y rhan fwyaf o'r arian rydych chi wedi gofyn amdano i chi. Fe fyddwn ni yn talu gweddill yr arian ar ddiwedd eich prosiect.




**Rhaid i chi wneud cais am y Gronfa Gwrando erbyn 5pm ar 19 Rhagfyr 2022.**




Fe fyddwn ni'n dweud wrthych chi beth rydyn ni wedi ei benderfynu erbyn canol Chwefror 2023.

# Cwestiynau a chymorth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych chi angen cymorth, cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda:






**Ffôn:** 029 2044 1300

**E-bost:** info@wai.org.uk

**Twitter:** @WAICymruWales

**Facebook:** @WalesArtsInternational

**Instagram:** @WAICymruWales



Rydych chi hefyd yn gallu trefnu sesiwn i siarad am y gwaith yma. Fe fyddwn ni'n cynnig y sesiynau yma drwy ein cyfrif cyfryngau cymdeithasol. Ac ar ein gwefan.

# Geiriau anodd

## Brodorol

Pobl frodorol ydy pobl oedd yn byw ar eu tir cyn i setlwyr ddod o rhywle arall.

Mae yna grwpiau o bobl frodorol ynAmerica, Ewrop, Awstralia a Seland Newydd. Er enghraifft pobl Māori yn Seland Newydd.

## Cwarantin

Mae cwarantin yn meddwl cadw i ffwrdd oddi wrth bobl eraill gartref neu mewn ystafell mewn gwesty er enghraifft, i stopio afiechyd rhag cael ei ledaenu.

## Hunanynysu

Mae hunanynysu yn meddwl aros gartref oherwydd efallai bod gennych chi neu mae gennych chi coronafeirws.